



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2013 Rhif 3270 (Cy. 320)

2013 No. 3270 (W. 320)

AMAETHYDDIAETH

AGRICULTURE

Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin
Sengl ar gyfer Marchnadoedd
(Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru)
2013

The Single Common Market
Organisation (Consequential
Amendments) (Wales) Regulations
2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio nifer o Reoliadau o ganlyniad i Reoliad (EU) 2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013, sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007 ("Rheoliad (EU) 2013"). Mae Rheoliad (EU) 2013 yn diddymu (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau trosiannol a therfynol a bennir yn Erthygl 230) y Trefniant Cyffredin Sengl blaenorol ar gyfer marchnadoedd – Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 ar 22 Hydref 2007 ("Rheoliad y Cyngor 2007") a oedd yn sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer marchnadoedd amaethyddol ac yn ymdrin â darpariaethau penodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol penodedig. Mae'r darpariaethau trosiannol a bennir yn Erthygl 230 yn darparu y bydd Erthyglau penodol o Reoliad y Cyngor 2007 yn parhau'n gymwys hyd nes daw rheolau marchnata cyfatebol a wneir o dan Reoliad (EU) 2013 ("rheolau marchnata cyfatebol") i rym.

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend a number of Regulations consequential upon the Regulation (EU) 2013 of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007 ("Regulation (EU) 2013"). Regulation (EU) 2013 repeals (subject to transitional and final provisions set out in Article 230) the earlier Single Common Market Organisation - Council Regulation (EC) No 1234/2007 of 22 October 2007 ("Council Regulation 2007") establishing a common organisation of agricultural markets and on specific provisions for certain agricultural products. The transitional provisions set out in Article 230 provide for certain Articles in Council Regulation 2007 to continue to apply until corresponding marketing rules made under Regulation (EU) 2013 ("corresponding marketing rules") come into force.

Diwygir y Rheoliadau canlynol—

- (a) Diwygir Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 2).
- (b) Diwygir Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 3).

The following Regulations are amended—

- (a) The Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011 are amended to replace references to Council Regulation 2007 with Regulation (EU) 2013 (regulation 2).
- (b) The Beef and Veal Labelling (Wales) Regulations 2011 are amended to replace references to Council Regulation 2007 with Regulation (EU) 2013 (regulation 3).

- (c) Mae Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Erthygl 114(2) o Reoliad y Cyngor 2007 (safonau marchnata ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth). Mae Erthygl 230(1)(c) yn darparu y bydd Erthygl 114 yn parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Diwygir Rheoliadau 2010 i ddisodli'r cyfeiriad yn rheoliad 3 (gwerthu neu ddanfon llaeth a defnyddio disgrifiad gwerthu) at Atodiad XIII i Reoliad y Cyngor 2007, gan gyfeiriad at Ran IV o Atodiad VII (llaeth ar gyfer ei yfed gan bobl) i Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 4).
- (d) Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi safonau marchnata UE mewn perthynas ag wyau deor, cywion dofednod ac wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta. Mae Erthygl 230(1)(c) yn darparu y bydd Erthygl 116 o Reoliad y Cyngor 2007 a rhannau penodol o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw yn parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Ac eithrio i'r graddau y mae Rheoliad y Cyngor 2007 yn gymwys, mae Rheoliad (EU) 2013 yn gymwys, a diwygir Rheoliadau 2010 i gyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 (rheoliad 5).
- (e) Diwygir Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 6).
- (f) Diwygir Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2008 i ddisodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor 2007 gan gyfeiriadau at Reoliad (EU) 2013 (rheoliad 7).
- (g) Mae Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi safonau marchnata mewn perthynas â chig dofednod. Bydd Erthygl 116 o Reoliad y Cyngor 2007 a rhannau penodol o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw'n parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Ac eithrio i'r graddau y mae Rheoliad y Cyngor 2007 yn gymwys, mae Rheoliad (EU) 2013 yn gymwys, a diwygir Rheoliadau 2011 i gyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 (rheoliad 8).
- (c) The Drinking Milk (Wales) Regulations 2010 make provision for the enforcement of Article 114 (2) of Council Regulation 2007 (marketing standards for milk and milk products). Article 230(1)(c) provides that Article 114 is to continue to apply until the corresponding marketing rules come into force. The 2010 Regulations are amended to replace the reference in regulation 3 (sale or delivery of milk and use of sales description) to Annex XIII to Council Regulation 2007 with Part IV of Annex VII (milk for human consumption) to Regulation (EU) 2013 (regulation 4).
- (d) The Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010 make provision for the enforcement of EU marketing standards relating to eggs for hatching, poultry chicks and eggs in shell for consumption. Article 230(1)(c) provides that Article 116 of, and certain parts of Annex XIV to, Council Regulation 2007 are to continue to apply until the corresponding marketing rules come into force. Save to the extent that Council Regulation 2007 applies, Regulation (EU) 2013 applies and the 2010 Regulations are amended to refer to the relevant provisions in Regulation (EU) 2013 (regulation 5).
- (e) The Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009 are amended to replace references to Council Regulation 2007 with Regulation (EU) 2013 (regulation 6).
- (f) The School Milk (Wales) Regulations 2008 are amended to replace references to Council Regulation 2007 with Regulation (EU) 2013 (regulation 7).
- (g) The Poultrymeat (Wales) Regulations 2011 make provision for the enforcement of marketing standards relating to poultrymeat. Article 116 of, and certain parts of Annex XIV to, Council Regulation 2007 are to continue to apply until the corresponding marketing rules come into force. Save to the extent that Council Regulation 2007 applies, Regulation (EU) 2013 applies and the 2011 Regulations are amended to refer to the relevant provisions in Regulation (EU) 2013 (regulation 8).

(h) Mae Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008 yn creu'r troseddau o fethu â chydymffurfio â darpariaethau yn Rheoliad y Cyngor 2007 mewn perthynas â safonau marchnata ar gyfer brasterau a disgrifiadau o laeth a chynhyrchion llaeth (Erthyglau 115 ac 114 yn eu trefn). Mae Erthygl 230(1)(c) o Reoliad (EU) 2013 yn darparu y bydd Erthyglau 114 a 115 o Reoliad y Cyngor 2007 a rhannau penodol o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw'n parhau'n gymwys hyd nes daw'r rheolau marchnata cyfatebol i rym. Ac eithrio i'r graddau y mae Rheoliad y Cyngor 2007 yn gymwys, mae Rheoliad (EU) 2013 yn gymwys, a diwygir Rheoliadau 2008 i gyfeirio at y darpariaethau perthnasol yn Rheoliad (EU) 2013 (rheoliad 9).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, nid ystyriwyd bod angen gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

(h) The Spreadable Fats (Marketing Standards) and the Milk and Milk Products (Protection of Designations) (Wales) Regulations 2008 create offences of failing to comply with provisions in Council Regulation 2007 relating to marketing standards for fats and descriptions of milk and milk products (Articles 115 and 114 respectively). Article 230 (1)(c) of Regulation (EU) 2013 provides that Articles 114 and 115 of, and certain parts of Annex XIV to, Council Regulation 2007 are to continue to apply until the corresponding marketing rules come into force. Save to the extent that Council Regulation 2007 applies, Regulation (EU) 2013 applies and the 2008 Regulations are amended to refer to the relevant provisions in Regulation (EU) 2013 (regulation 9).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2013 Rhif 3270 (Cy. 320)

2013 No. 3270 (W. 320)

AMAETHYDDIAETH

AGRICULTURE

Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin
Sengl ar gyfer Marchnadoedd
(Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru)
2013

The Single Common Market
Organisation (Consequential
Amendments) (Wales) Regulations
2013

Gwnaed 27 Rhagfyr 2013

Made 27 December 2013

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 31 Rhagfyr 2013

Laid before the National Assembly for Wales
31 December 2013

Yn dod i rym 1 Ionawr 2014

Coming into force 1 January 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(2), ac y maent yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno.

The Welsh Ministers, are designated for the purposes of making regulations under section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) ("the 1972 Act") in relation to the common agricultural policy of the European Union(2), and they make the following Regulations in exercise of the powers conferred by that section.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd(3).

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the 1972 Act and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references in these Regulations to the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, to be construed as references to that Regulation as amended from time to time(3).

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen i'r Ddeddf honno. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(2) O.S.2010/2690

(3) O.J. L 347, 20.12.2013. t.671.

(1) 1972 c. 68. Section 2(2) is amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7). Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006.

(2) S.I.2010/2690

(3) O.J. L 347, 20.12.2013, p. 671.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn dwyn yr enw Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013;
- (b) yn gymwys o ran Cymru; ac
- (c) yn dod i rym ar 1 Ionawr 2014.

Diwygio Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor” (“*Council Regulation*”) ac ar ôl y diffiniad o “mochyn glân” (“*clean pig*”) mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013, sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;”

(3) Yn rheoliad 2(3) (dehongli) hepgorer isbaragraff (b).

(4) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (darpariaethau Ewropeaidd: carcasau buchol)—

- (a) yng ngholofn (1) o'r tabl, yn lle “Rheoliad y Cyngor”, rhodder “Rheoliad (EU) 2013”;
- (b) yng ngholofn 2 o'r tabl, yn lle “Atodiad V”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “Atodiad IV”.

(5) Yn y tabl yn Atodlen 2 (darpariaethau Ewropeaidd: carcasau moch)—

- (a) yng ngholofn (1), yn lle “Rheoliad y Cyngor”, rhodder “Rheoliad (EU) 2013”;
- (b) yng ngholofn (2), yn lle “Atodiad V”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “Atodiad IV”.

Title, application and commencement

1. These Regulations

- (a) are entitled the Single Common Market Organisation (Consequential Amendments) (Wales) Regulations 2013
- (b) apply in relation to Wales; and
- (c) come into force on the 1 January 2014.

Amendments to the Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011

2.—(1) The Beef and Pig Carcase Classification (Wales) Regulations 2011(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation) omit the definition of “Council Regulation” (“*Rheoliad y Cyngor*”) and after the definition of “prescribed communication” (“*cyfathrebiad rhagnodedig*”) insert the following definition—

““Regulation (EU) 2013” (“*Rheoliad (EU) 2013*”) means “the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time;”.

(3) In regulation 2(3) (interpretation) omit subparagraph (b).

(4) In Part 1 of Schedule 1 (European provisions: bovine carcases)—

- (a) in column 1 of the table for “Council Regulation” substitute “Regulation (EU) 2013”;
- (b) In column 2 of the table for “Annex V”, in each place it occurs, substitute “Annex IV”.

(5) In the table in Schedule 2 (European provisions: pig carcases)—

- (a) in column 1 for “Council Regulation” substitute “Regulation (EU) 2013”;
- (b) in column 2 for “Annex V”, in each place it occurs, substitute “Annex IV”.

(1) O.S. 2011/1826 (Cy. 198) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2012/948 (Cy.125).

(1) S.I. 2011/1826 (W. 198); as amended by 2012/948 (W. 125).

Diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

3.—(1) Diwygir Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(1) fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 2(1)(c) (yr awdurdod cymwys) rhodder—

“(c) Erthygl 78 o Reoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a Rhan I o Atodiad VII iddo, a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013, sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;”.

(3) Yn lle rheoliad 4(1)(c) (tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd) rhodder—

“(c) Y darpariaethau canlynol o Reoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd—

- (i) Erthygl 78 a pharagraff II o Ran I o Atodiad VII (dosbarthu yn y lladd-dy);
- (ii) Erthygl 78 a pharagraff III o Ran I o Atodiad VII (disgrifiadau gwerthu);
- (iii) Erthygl 78 a pharagraff IV o Ran I o Atodiad VII (gwybodaeth orfodol ar y label);
- (iv) Erthygl 78 a pharagraff V o Ran I o Atodiad VII (cofnodi).”.

Amendments to the Beef and Veal Labelling (Wales) Regulations 2011

3.—(1) The Beef and Veal Labelling (Wales) Regulations 2011(1) are amended as follows.

(2) For regulation 2(1)(c) (competent authority) substitute—

“(c) Article 78 of, and Part I of Annex VII to, the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time;”.

(3) For regulation 4(1)(c) (offences under European legislation) substitute—

“(c) The following provisions of the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time—

- (i) Article 78 and paragraph II of Part I of Annex VII (classification at the slaughterhouse);
- (ii) Article 78 and paragraph III of Part I of Annex VII (sales descriptions);
- (iii) Article 78 and paragraph IV of Part I of Annex VII (compulsory indication on the label);
- (iv) Article 78 and paragraph V of Part I of Annex VII (recording).”.

(4) Yn rheoliad 4(2) (gwybodaeth sy'n ofynnol mewn perthynas â chig heb ei ragbecynnu) yn lle "paragraff IV(2) o Atodiad XIa i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007" rhodder "pwynt IV(2) o Ran I o Atodiad VII i Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd".

Diwygio Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010

4.—(1) Diwygir Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

- (a) hepgorer y diffiniad o "yr Atodiad" ("*the Annex*");
- (b) yn y diffiniadau o "llaeth ("*milk*") a "llaeth yfed" ("*drinking milk*")", yn lle "o'r Atodiad" rhodder "o Ran IV".
- (c) ar ôl y diffiniad o "llaeth yfed" mewnosoder—

"ystyr "Rhan IV" ("*Part IV*") yw Rhan IV o Atodiad VII i Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd."

(3) Yn rheoliad 2(2) (dehongli), ar ôl "Rheoliad y Cyngor", ym mhob man lle mae'n digwydd, mewnosoder "neu Ran IV".

(4) Hpgorer rheoliad 2(3) (dehongli).

(5) Yn rheoliad 3 (gwerthu neu ddanfôn llaeth a defnyddio disgrifiad gwerthu) yn lle "o'r Atodiad fel y'u darllenir ynghyd â phwynt III o'r Atodiad" rhodder "o Ran IV fel y'u darllenir ynghyd â phwynt III o Ran IV".

(6) Hpgorer rheoliad 4 (mewnforio cynhyrchion o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd i'w gwerthu fel llaeth yfed).

(7) Yn rheoliad 5(3) (gorfodi), yn lle "neu'r Atodiad" rhodder "neu Ran IV".

(8) Yn rheoliad 6 (tramgwyddau a chosbau), hepgorer "neu 4".

(4) In regulation 4(2) (required information in relation to un-prepacked meat) for "paragraph IV(2) of Annex XIa to Council Regulation (EC) No 1234/2007" substitute "point IV(2) of Part I of Annex VII to the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time".

Amendments to the Drinking Milk (Wales) Regulations 2010

4.—(1) The Drinking Milk (Wales) Regulations 2010(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

- (a) omit the definition of "the Annex" ("*yr Atodiad*");
- (b) in the definitions of "drinking milk" ("*llaeth yfed*") and "milk" ("*llaeth*") for "the Annex" substitute "Part IV";
- (c) after the definition of "milk" insert—

"Part IV" ("*Rhan IV*") means Part IV of Annex VII to the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time."

(3) In regulation 2(2) (interpretation) after "Council Regulation", in each place it occurs, insert "or Part IV".

(4) Omit regulation 2(3) (interpretation).

(5) In regulation 3 (sale or delivery of milk and use of sales description) for "the Annex as read with point III of the Annex" substitute "Part IV as read with point III of Part IV".

(6) Omit regulation 4 (imports of products from outside the EU for sale as drinking milk).

(7) In regulation 5(3) (enforcement) for "the Annex" substitute "Part IV".

(8) In regulation 6 (offences and penalties) omit "or 4".

Diwygio Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010

5.—(1) Diwygir Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (dehongli), ar ôl y diffiniad o “Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003” mewnosoder—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;”.

(3) Yn rheoliad 3(3) (dehongli) yn lle “Rhan A o Atodiad XIV i’r Rheoliad Sengl CMO” rhodder “Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

(4) Yn rheoliad 3(5)(a) a (6)(a) (dehongli), ar ôl “Rheoliad Sengl CMO” mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”.

(5) Yn rheoliad 8 (cymhwyso Rhan 3)—

- (a) ym mharagraffau (1) a (2)(a), yn lle “o Ran A o Atodiad XIV i’r Rheoliad Sengl CMO”, ym mhob man lle mae’n digwydd, rhodder “o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”; a
- (b) ym mharagraff (2)(b), yn lle “o Ran A o Atodiad XIV i’r Rheoliad Sengl CMO, i werthu wyau y mae pwynt I(1) o Ran A o Atodiad XIV” rhodder “o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013, i werthu wyau y mae pwynt I(1) o Ran VI o Atodiad VII”.

(6) Yn rheoliad 11(1) a (2) (rhanddirymiaidau sy’n ymwneud â marcio wyau), yn lle “o Ran A o Atodiad XIV i’r Rheoliad Sengl CMO”, ym mhob man lle mae’n digwydd, rhodder “o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

(7) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (darpariaethau UE ynglŷn ag wyau deor a chywion y mae methu â chydymffurfio â hwy yn dramgwydd)—

- (a) yn y pennawd o dan “Rhan 1”, mewnosoder ar y diwedd “neu’r Rheoliad (EU) 2013”;
- (b) ym mhenawdau colofnau 1 a 2, ar ôl “CMO” rhodder “neu’r Rheoliad (EU) 2013”;
- (c) yng ngholofn 1, yn lle “Erthygl 113(3), yr is-baragraff cyntaf” rhodder “Erthygl 74 o Reoliad (EU) 2013”;

Amendments to the Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010

5.—(1) The Eggs and Chicks (Wales) Regulations 2010(1) are amended as follows.

(2) In regulation 3(1) (interpretation) after the definition of “Regulation 2160/2003” insert—

““Regulation (EU) 2013” (“*Rheoliad (EU) 2013*”) means the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time;”.

(3) In regulation 3(3) (interpretation) for “Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation” substitute “Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”.

(4) In regulation 3(5)(a) and (6)(a) (interpretation) after “Single CMO Regulation” insert “or Regulation (EU) 2013”.

(5) In regulation 8 (application of Part 3)—

- (a) in paragraphs (1) and (2)(a) for “Part A of Annex XIV to the Single CMO”, substitute “Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”; and
- (b) in paragraph (2)(b) for “Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation, to the sale of eggs to which point I(1) of Part A of Annex XIV” substitute “Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013, to the sale of eggs to which point I(1) of Part VI of Annex VII”.

(6) In regulation 11(1) and (2) (derogations relating to the marking of eggs) for “Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation”, in each place it occurs, substitute “Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”.

(7) In Part 1 of Schedule 1 (EU provisions relating to eggs for hatching and chicks contravention of which is an offence)—

- (a) in the heading under “Part 1” insert at the end “or Regulation (EU) 2013”;
- (b) in the headings to columns 1 and 2 after “Regulation” insert “or Regulation (EU) 2013”;
- (c) in column 1 for “Article 113(3), first subparagraph” substitute “Article 74 of Regulation (EU) 2013”;

(d) yng ngholofn 1 ar ôl “Atodiad XIV”, ym mhob man lle mae’n digwydd, mewnosoder “i’r Rheoliad Sengl CMO”.

(8) Yn Atodlen 2 (darpariaethau UE cyffredinol ynglŷn ag wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta, y mae methu â chydymffurfio â hwy yn dramgwydd)—

(a) yn lle Rhan 1 (darpariaethau’r Rheoliad Sengl CMO) rhodder—

(d) in column 1 after “Annex XIV”, in each place it occurs, insert “to the Single CMO Regulation”.

(8) In Schedule 2 (general EU provisions relating to eggs in shells for consumption contravention of which is an offence)—

(a) for Part 1 (provisions of the Single CMO Regulation) substitute—

“PART 1

DARPARIAETHAU RHEOLIAD (EU) 2013

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>
<i>Y ddarpariaeth berthnasol o Reoliad (EU) 2013</i>	<i>Darpariaethau i’w darllen gyda darpariaethau Rheoliad (EU) 2013 a grybwyllir yng ngholofn 1</i>	<i>Y pwnc</i>
Erthygl 74 i’r graddau y mae’n ymwneud â marchnata wyau	Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Gwaharddiad ar farchnata wyau ac eithrio yn unol â’r safonau marchnata a osodir yn Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008.
Pwynt II(1) o Ran VI o Atodiad VII	Erthygl 2(1) a (4) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Graddio ansawdd wyau dosbarth A (neu ffres) neu wyau dosbarth B.

“PART 1

PROVISIONS OF REGULATION (EU) 2013

<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
Relevant provision of Regulation (EU) 2013	Provisions to be read with the provisions of Regulation (EU) 2013 mentioned in column 1	Subject matter
Article 74 insofar as it relates to the marketing of eggs	Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013 and Commission Regulation (EC) No. 589/2008	Prohibition on the marketing of eggs except in accordance with the marketing standards laid down in Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013 and Commission Regulation (EC) No. 589/2008.
Point II(1) of Part VI of Annex VII	Article 2(1) and (4) of Commission Regulation (EC) No. 589/2008	Quality grading of eggs as Class A (or fresh) or Class B eggs.

Pwynt II(2) o Ran VI o Atodiad VII	Erthygl 4(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Graddio pwysau wyau dosbarth A.
Pwynt II(3) o Ran VI o Atodiad VII		Gwaharddiad ar gyflenwi wyau dosbarth B ac eithrio i'r diwydiant bwyd a diwydiant nad yw'n ddiwydiant bwyd.
Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII, yr is-baragraff cyntaf	Erthyglau 9(1) ac 11 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Marcio wyau dosbarth A.
Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII, yr ail is-baragraff	Erthyglau 9, 10 ac 11 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008, paragraffau (a) a (b) o'r ail is-baragraff o bwynt 2 o Ran D o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 a rheoliad 11(1)	Marcio wyau dosbarth B.
Pwynt III(2) o Ran VI o Atodiad VII	Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013	Y man lle caiff wyau eu marcio.
Pwynt III(3) o Ran VI o Atodiad VII, yr is-baragraff cyntaf	Pwynt III(1) o Ran VI o Atodiad VII a'r ail is-baragraff o bwynt III(3) o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013 a rheoliad 11(2)	Marcio wyau a werthir gan gynhyrchydd i'r cwsmer terfynol mewn marchnad gyhoeddus leol.

Point II(2) of Part VI of Annex VII	Article 4(1) of Commission Regulation (EC) No. 589/2008	Weight grading of Class A eggs.
Point II(3) of Part VI of Annex VII		Prohibition on the delivery of Class B eggs except to the food and non-food industry.
Point III(1) of Part VI of Annex VII, first sub-paragraph	Articles 9(1) and 11 of Commission Regulation (EC) No. 589/2008	Marking of Class A eggs.
Point III(1) of Part VI of Annex VII, second sub-paragraph	Articles 9, 10 and 11 of Commission Regulation (EC) No. 589/2008, paragraphs (a) and (b) of the second sub-paragraph of point 2 of Part D of Annex II to Regulation (EC) No. 2160/2003 and regulation 11(1)	Marking of Class B eggs.
Point III(2) of Part VI of Annex VII	Point III(1) of Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013	Place at which eggs are marked.
Point III(3) of Part VI of Annex VII, first sub-paragraph	Point III(1) of Part VI of Annex VII and the second sub-paragraph of point III(3) of Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013 and regulation 11(2)	Marking of eggs sold by a producer to the final consumer at a local public market.

Erthyglau 75(2) a (3) o Reoliad (EU) 2013	Erthygl 30(2) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Marcio wyau a fewnforir o drydedd wlad pan fo gwarantau digonol fod y rheolau a gymhwysir mewn perthynas â'r wyau hynny yn y drydedd wlad sydd dan sylw yn gyfwerth â deddfwriaeth UE.
Erthyglau 75(2) a (3) o Reoliad (EU) 2013	Erthyglau 11, 30(2) a (3) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008	Marcio wyau a fewnforir o drydedd wlad pan nad oes gwarantau digonol fod y rheolau a gymhwysir mewn perthynas â'r wyau hynny yn y drydedd wlad sydd dan sylw yn gyfwerth â deddfwriaeth UE.”

Articles 75(2) and (3) of Regulation (EU) 2013	Article 30(2) of Commission Regulation (EC) No. 589/2008	Marking of eggs imported from a third country where the rules applied in relation to those eggs in that country have been found to offer sufficient guarantees as to equivalence with EU legislation
Articles 75(2) and (3) of Regulation (EU) 2013	Articles 11, 30(2) and (3) of Commission Regulation (EC) No. 589/2008	Marking of eggs imported from a third country where sufficient guarantees of equivalence of the rules relating to those eggs with EU legislation have not been provided.”

(b) yn y tabl yn Rhan 2 (darpariaethau Rheoliad y Comisiwn (EC) 589/2008)—

- (i) yng ngholofn 2, yn lle “Pwynt II(1) o Ran A o Atodiad XIV, y mewnnoliad cyntaf, i'r Rheoliad Sengl CMO”, rhodder “Pwynt II(1) o Ran VI o Atodiad VII, y mewnnoliad cyntaf, i Reoliad (EU) 2013”, ac yn lle “Pwynt II(1) o Ran A of Atodiad XIV, yr ail fewnnoliad, i'r Rheoliad Sengl CMO”, rhodder “Pwynt II(1) o Ran VI o Atodiad VII, yr ail fewnnoliad, i Reoliad (EU) 2013” ;
- (ii) yng ngholofn 2, yn lle “Pwynt II(2) o Ran A o Atodiad XIV i'r Rheoliad Sengl CMO” rhodder “Pwynt II(2) o Ran VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”;

(b) in the table in Part 2 (provisions of Commission Regulation (EC) 589/2008)—

- (i) in column 2 for “point II(1) of Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation”, in each place it occurs, substitute “point II(1) of Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”;
- (ii) in column 2 for “Point II(2) of Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation” substitute “Point II(2) of Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”;

(iii) yng ngholofn 2, yn lle “Pwynt III(1) o Ran A o Atodiad XIV, yr ail is-baragraff, i'r Rheoliad Sengl CMO”, ym mhob man lle mae'n digwydd, rhodder “Pwynt III(2) o Ran VI o Atodiad VII, yr ail is-baragraff, i Reoliad (EU) 2013”;

(iv) mewn perthynas â'r cofnod ar gyfer Erthygl 30(3) yng ngholofn 2 hepgorer “pwynt IV(3) o Ran A o Atodiad XIV”;

(9) Yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 3 (rheolaethau cymunedol ynglŷn ag wyau yn eu plisgyn ar gyfer eu bwyta, mewn perthynas â *Salmonella*, y mae methu â chydymffurfio â hwy yn dramgwydd), yn lle “Erthyglau 113(3) a 116 o'r Rheoliad Sengl CMO a Rhan A o Atodiad XIV i'r Rheoliad hwnnw” rhodder “Erthygl 74 a Rhan VI o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

(iii) in column 2 for “point III(1) of Part A of Annex XIV to the Single CMO Regulation”, in each place it occurs, substitute “point III(2) of Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”;

(iv) in relation to the entry for Article 30(3) in column 2 omit “point IV(3) of Part A of Annex XIV”;

(9) in column 2 of the table in Schedule 3 (Community salmonella related controls on eggs in shell for consumption contravention of which is an offence) for “Articles 113(3) and 116 of, and Part A of Annex XIV to, the Single CMO Regulation” substitute “Article 74 and Part VI of Annex VII to Regulation (EU) 2013”.

Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

6.—(1) Diwygir Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o “rheolau marchnata'r UE” (“*EU marketing rules*”), yn lle “i Reoliad y Cyngor 1234/2007, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 113 ac 113a o Reoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “i Reoliad (EU) 2013, ac sy'n cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r safonau hynny a geir yn Erthyglau 74, 75 a 76 o Reoliad (EU) 2013”;

(b) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor 1234/2007” (“*Council Regulation 1234/2007*”);

(c) yn y diffiniad o “safon farchnata gyffredinol” (“*general marketing standard*”) yn lle “Erthygl 113a(1) o Reoliad 1234/2007” rhodder “Erthygl 76(1) o Reoliad (EU) 2013”;

(d) yn y diffiniad o “cynnyrch garddwriaethol” (“*horticultural produce*”), yn lle “Reoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “Reoliad (EU) 2013”;

Amendments to the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009

6.—(1) The Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2(2) (interpretation)—

(a) in the definition of “EU marketing rules” (“*rheolau marchnata'r UE*”) for “Council Regulation 1234/2007, and includes the rules relating to those standards contained in Articles 113 and 113a of Council Regulation 1234/2007” substitute “Regulation (EU) 2013, and includes the rules relating to those standards contained in Articles 74, 75 and 76” of Regulation (EU) 2013;

(b) omit the definition of “Council Regulation 1234/2007” (“*Rheoliad y Cyngor 1234/2007*”);

(c) in the definition of “general marketing standard” (“*safon farchnata gyffredinol*”) for “Article 113a(1) of Regulation 1234/2007” substitute “Article 76(1) of Regulation (EU) 2013”;

(d) in the definition of “horticultural produce” (“*cynnyrch garddwriaethol*”) for “The Council Regulation 1234/2007” substitute “Regulation (EU) 2013”;

(1) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/2486 (Cy.270)

(1) S.I. 2009/1551 (W. 151); as amended by 2011/2486 (W. 270).

- (e) ar ôl y diffiniad o “rheolau marchnata’r UE” (“*EU marketing rules*”) mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;”;

- (f) yn y diffiniad o “safonau marchnata penodol” (“*specific marketing standards*”) yn lle “Erthygl 113(1)(b) o Reoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “Erthygl 75(1)(b) o Reoliad (EU) 2013”.

(3) Yn rheoliad 2(3) (dehongli), yn lle “Rheoliad y Cyngor 1234/2007” rhodder “Rheoliad (EU) 2013”.

- (e) after the definition of “re-graded label” (“*label ailraddio*”) insert the following definition—

““Regulation (EU) 2013” (“*Rheoliad (EU) 2013*”) means the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time;”;

- (f) in the definition of “specific marketing standards” (“*safonau marchnata penodol*”) for “Article 113(1)(b) of Council Regulation 1234/2007” substitute “Article 75(1)(b) of Regulation (EU) 2013”.

(3) In regulation 2(3) (interpretation) for “Council Regulation 1234/2007” substitute “Regulation (EU) 2013”.

Diwygio Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008

7.—(1) Diwygir Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2008(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) yn y diffiniad o “cymorth Cymunedol” (“*Community aid*”) yn lle “Erthygl 102(1) o Reoliad y Cyngor” rhodder “Erthygl 26(1) o Reoliad (EU) 2013”;

- (b) yn y diffiniad o “cymorth gwladol” (“*national aid*”) yn lle “Erthygl 102(2) o Reoliad y Cyngor” rhodder “Erthygl 217 o Reoliad (EU) 2013”;

- (c) hepgorer y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”);

- (d) ar ôl y diffiniad o “y rheolau Cymunedol” (“*the Community rules*”) mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd;”.

Amendments to the School Milk (Wales) Regulations 2008

7.—(1) The School Milk (Wales) Regulations 2008 (1) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

- (a) in the definition of “Community aid” (“*cymorth Cymunedol*”) for “Article 102(1) of Council Regulation 1234/2007” substitute “Article 26(1) of Regulation (EU) 2013”;

- (b) omit the definition of “Council Regulation” (“*Rheoliad y Cyngor*”);

- (c) in the definition of “national aid” (“*cymorth gwladol*”) for “Article 102(2) of the Council Regulation” substitute “Article 217 of Regulation (EU) 2013”.

- (d) after the definition of “national aid” (“*cymorth gwladol*”) insert the following definition—

““Regulation (EU) 2013” means the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time;”.

(1) O.S. 2008/2141 (Cy.190), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2009/108 (Cy. 21)

(1) S.I. 2008/2141 (W.190); as amended by 2009/108 (W. 21).

Diwygio Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011

8.—(1) Diwygir Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011(1) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) (cymhwyso'r Rheoliadau i gig dofednod)—

- (a) yn lle “ym mhwynt I(1) o Ran B o Atodiad XIV i'r Rheoliad CMO Sengl” rhodder “ym mhwynt I o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”; a
- (b) yn lle “o'r Rhan honno o'r Atodiad hwnnw i'r Rheoliad hwnnw” rhodder “o Ran B o Atodiad XIV i'r Rheoliad CMO Sengl”.

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o “darpariaeth cig dofednod Ewropeaidd” (“*European poultrymeat provision*”), ar ôl “Rheoliad CMO Sengl” mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”;

(ii) yn lle'r diffiniad o “cig dofednod” (“*poultrymeat*”) rhodder—

“mae i “cig dofednod” (“*poultrymeat*”) yr ystyr a roddir i “poultrymeat” gan bwynt II(1) o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013;”;

(iii) ar ôl y diffiniad o “y Rheoliad CMO Sengl” (“*Single CMO Regulation*”) mewnosoder y diffiniad canlynol—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;”;

(b) ym mharagraff (3), ar ôl “Rheoliad CMO Sengl” mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”.

(4) Yn rheoliad 12 (pwerau swyddog awdurdodedig), yn lle “i'r Rheoliad CMO Sengl” rhodder “i Reoliad (EU) 2013”.

(5) Yn Rhan 1 o Atodlen 1 (darpariaethau cig dofednod Ewropeaidd – hysbysiadau cydymffurfio)—

(a) yn y pennawd o dan “Rhan 1”, ar ôl “CMO Sengl” mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”;

Amendments to the Poultrymeat (Wales) Regulations 2011

8.—(1) The Poultrymeat (Wales) Regulations 2011(1) are amended as follows.

(2) In regulation 1(3) (application of Regulations to poultrymeat)—

(a) for “point I(1) of Part B of Annex XIV to the Single CMO Regulation” substitute “point I of Part V of Annex VII to Regulation (EU) 2013”; and

(b) for “that Part of that Annex to that Regulation” substitute “Part B of Annex XIV to the Single CMO Regulation”.

(3) In regulation 2 (interpretation)—

(a) in paragraph (1)—

(i) in the definition of “European poultrymeat provision” (“*darpariaeth cig dofednod Ewropeaidd*”) after “Single CMO Regulation” insert “or Regulation (EU) 2013”;

(ii) for the definition of “poultrymeat” (“*cig dofednod*”) substitute—

““poultrymeat” (“*cig dofednod*”) has the meaning given by point II(1) of Part V of Annex VII to Regulation (EU) 2013;”;

(iii) after the definition of “premises” (“*mangre*”) insert the following definition—

““Regulation (EU) 2013” (“*Rheoliad (EU) 2013*”) means “the Regulation (EU) 2013 of the European Parliament and of the Council establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time;” and

(b) in paragraph (3) after “Single CMO Regulation” insert “or Regulation (EU) 2013”.

(4) In regulation 12 (powers of an authorised officer) for “Single CMO Regulation” substitute “Regulation (EU) 2013”.

(5) In Part 1 of Schedule 1 (European poultrymeat provisions – compliance notices)—

(a) in the heading under Part 1 after “Single CMO Regulation” insert “or Regulation (EU) 2013”

- (b) yn lle pennawd colofn 1, rhodder “Darpariaeth berthnasol o’r Rheoliad CMO Sengl neu Reoliad (EU) 2013”;
 - (c) ym mhennawd colofn 2, ar ôl “Rheoliad CMO Sengl” mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”;
 - (d) yng ngholofn 1 o’r tabl, yn lle “Erthygl 113(3), yr is-baragraff cyntaf” rhodder “Erthygl 74 o Reoliad (EU) 2013”;
 - (e) yng ngholofn 2 o’r tabl, yn lle “Erthygl 116 o’r Rheoliad CMO Sengl a Rhan B o Atodiad XIV i’r Rheoliad hwnnw” rhodder “Erthygl 116 a Rhan B(I)(2) a (3) a (III)(1) o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl a Rhan V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”;
 - (f) yng ngholofn 3 o’r tabl, yn lle “Rhan B o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl” rhodder “Rhan B(I)(2) a (3) a (III)(1) o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl a Rhan V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”;
 - (g) yng ngholofn 1 o’r tabl, ar ôl “Pwynt III(1) o Ran B o Atodiad XIV” mewnosoder “i’r Rheoliad CMO Sengl”;
 - (h) yng ngholofn 1 o’r tabl, yn lle “Pwynt III(2) o Ran B o Atodiad XIV” rhodder “Pwynt III o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”; ac
 - (i) yng ngholofn 2 o’r tabl yn lle “o Ran B o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl” ym mhob man lle mae’n digwydd, rhodder “o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.
- (6) Yn Rhan 2 o Atodlen 1 (darpariaethau Rheoliad y Comisiwn)—
- (a) yng ngholofn 2 yn lle “Pwyntiau III(1) a (2) o Ran B o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl” rhodder “Pwynt III(1) o Ran B o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl a phwynt III o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”; a
 - (b) yn lle “Pwynt II(3) o Ran B o Atodiad XIV i’r Rheoliad CMO Sengl” rhodder “Pwynt II(3) o Ran V o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”.

Diwygio Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008

9.(1) Diwygir Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) a Llaeth a Chynhyrchion Llaeth (Diogelu Dynodiadau) (Cymru) 2008(1) fel a ganlyn.

(1) O.S. 2008/1341 (Cy. 141).

Amendments to the Spreadable Fats (Marketing Standards) and the Milk and Milk Products (Protection of Designations)(Wales) Regulations 2008

9.—(1) The Spreadable Fats (Marketing Standards) and the Milk and Milk Products (Protection of Designations) (Wales) Regulations 2008(1) are amended as follows.

(1) S.I. 2008/1341 (W. 141).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

- (a) Ym mharagraff (1), ar ôl y diffiniad o “manwerthu” (“*sell by retail*”), mewnosoder—

“ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad Senedd Ewrop a’r Cyngor a fabwysiadwyd ar 16 Rhagfyr 2013 sy’n sefydlu trefniant cyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol ac yn diddymu Rheoliadau’r Cyngor (EEC) Rhif 922/72, (EEC) Rhif 234/79, (EC) Rhif 1037/2001 ac (EC) Rhif 1234/2007, fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.”

- (b) ym mharagraff (2) ar ôl “Rheoliad y Cyngor”, ym mhob man lle mae’n digwydd, mewnosoder “neu Reoliad (EU) 2013”.

(3) Yn rheoliad 6(2) (tramgwyddau a chosb am dorri unrhyw ddarpariaeth UE)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “gydag Atodiad XII i’r Rheoliad hwnnw” rhodder “gyda Rhan III o Atodiad VII i Reoliad (EU) 2013”;
- (b) yn lle is-baragraff (b)(i) rhodder “(i) pwyntiau 1, 3, 5 a 6 o Ran II a phwynt 2 o Ran IV o Atodiad XV i Reoliad y Cyngor”;
- (c) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder “(ba) Erthyglau 75(1)(h) a 78(1) a (2) o Reoliad (EU) 2013 (diffiniadau, dynodiadau a disgrifiadau gwerthu sy’n gymwys i frasterau taenadwy) fel y’u darllenir gyda Rhan VII o Atodiad VII i’r Rheoliad hwnnw”.

(2) In regulation 2 (interpretation)—

- (a) In paragraph (1), after the definition of “food authority” (“*awdurdod bwyd*”), insert—

““*Regulation (EU) 2013*” (“*Rheoliad (EU) 2013*”) means “the Regulation of the European Parliament and of the Council adopted on 16 December 2013 establishing a common organisation of the markets in agricultural products and repealing Council Regulations (EEC) No 922/72, (EEC) No 234/79, (EC) No 1037/2001 and (EC) No 1234/2007, as amended from time to time”;

- (b) in paragraph (2) after “Council Regulation”, in each place it occurs, insert “, Regulation (EU) 2013”.

(3) In regulation 6(2) (offences and penalty for breach of any EU provision)—

- (a) in sub-paragraph (a) for “Annex XII to that Regulation” substitute “Part III of Annex VII to Regulation (EU) 2013”;
- (b) for sub-paragraph (b)(i) substitute “(i) points 1,3,5 and 6 of Part II and point 2 of Part IV of Annex XV to the Council Regulation”;
- (c) insert after sub-paragraph (b) “(ba) Articles 75(1)(h) and 78(1) and (2) of Regulation (EU) 2013 (definitions, designations and sales descriptions applying to spreadable fats) as read with Part VII of Annex VII to that Regulation”.

Alun Davies

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, un o Weinidogion Cymru

27 Rhagfyr 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Natural Resources and Food, one of the Welsh Ministers

27 December 2013

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£5.75

W1829/02/14

ON

ISBN 978-0-348-10859-0



9 780348 108590